# CYSUR 1 2019

# Adolygiad Ymarfer Plant Cryno




## 1 Cefndir

Yn 2018, cafodd babi pum wythnos oed anafiadau a allai beryglu bywyd tra’r oedd yn cael ei ofalu gan, ac yn byw gyda’i rieni biolegol a’i fam-gu ar ochr ei fam. Barnwyd bod yr anafiadau hyn yn anesboniadwy ac nad oeddent yn gyson ag anafiadau damweiniol. Cafodd y rhieni biolegol a’r fam-gu ar ochr y fam eu harestio wedi hynny fel troseddwyr posibl. Plediodd mam a thad y babi yn euog i ymosodiad/camdriniaeth/ esgeuluso/ gadael plentyn gan achosi dioddefaint/anaf diangen; ni wnaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron symud yr achos ymlaen mewn perthynas â mam-gu’r babi. Mae’r babi wedi’i fabwysiadu ac wedi gwneud cynnydd cadarnhaol, ond mae gweithwyr proffesiynol yn parhau i fod yn ansicr ynghylch effaith hirdymor yr anafiadau.

## 2 Cefndir Teuluol

Pan anwyd y babi, roedd ei fam yn 20 oed, a’i dad yn 18 oed.

Ni fagwyd y ddau riant gan eu rhieni biolegol priodol, a wynebodd y ddau blentyndod cymhleth a thrawma. Roedd y fam wedi cael profiadau niweidiol yn ystod ei phlentyndod, yn cynnwys cam-drin corfforol, rhywiol ac emosiynol. Roedd hefyd yn dangos rhai ymddygiadau a oedd yn achosi pryder, megis cymryd gorddos a hunan-niweidio.

Symudodd rhieni’r babi o Orllewin Sussex i Gymru ym mis Awst 2018. Roeddent yn bwriadu byw gyda theulu ochr y fam ac roedd yn ymddangos eu bod yn cael cefnogaeth dda gan weithwyr proffesiynol.

## 3 Asesiadau Cyn Geni

Nododd yr adolygiad wendidau a thrawma mewn perthynas â’r ddau riant. Pe bai asesiad cyn geni wedi’i gyflawni, gallai hyn fod wedi hwyluso ystyriaeth o hanes a deinameg yr unigolion a’r teulu, a allai fod wedi llywio atgyfeiriadau gofal a chymorth priodol.

Ochr yn ochr â’r dysgu hwn, teimlai ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu, o edrych yn ôl, y gellid bod wedi cymryd cyfleoedd i ymarfer lefel uwch o chwilfrydedd proffesiynol.

## 4 Swyddogaeth Tadau

Dywedodd y fam-gu ar ochr y fam ei bod yn ymddangos bod ymarferwyr yn diystyru rôl a chefndir y tad biolegol, a’i arwyddocâd posibl yn y gofal a’r ymyriadau a ddarperir.

Er ei fod yn bresennol ar gyfer yr apwyntiadau gyda’r Ymwelydd Iechyd, gellid bod wedi rhoi mwy o sylw i’r tad, ei rôl yn y teulu a chyda’r babi, a’i ddadansoddi’n fwy.

Felly amlygodd yr adolygiad bwysigrwydd rhoi ystyriaeth ddyledus i dadau, os ydynt yn bresennol, fel aelod o’r teulu ac nid ar wahân i’r broses asesu.

## 5 Arferion da a nodwyd

- Roedd prosesau amddiffyn plant wedi cael eu dilyn yn briodol ac wedi digwydd o fewn yr amserlen.
- Dechreuodd chwiliadau am leoliad ar unwaith, felly daethpwyd o hyd i leoliad cyn rhyddhau’r plentyn a chafwyd trosglwyddiad llyfn.
- Cafodd yr atgyfeiriad gan y meddyg teulu ei frysbennu gan y gweithiwr ar ddyletswydd ar yr un diwrnod. Cafwyd trafodaeth bellach yng nghyfarfod yr ‘hyb’ aml-asiantaeth a phenderfynwyd bod angen cynnal asesiad gan y gweithiwr ar ddyletswydd.
- Cyfeiriwyd y fam ar gyfer cwnsela sylfaenol a chymorth parhaus drwy apwyntiadau seiciatreg i gleifion allanol.
- Rhannwyd asesiadau cychwynnol gyda Gwasanaethau Plant ac Uned Diogelu (Plant) Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.
- Roedd gwybodaeth wedi cael ei rhannu’n gywir ac yn brydlon yn fewnol ac yn allanol gan yr Heddlu.

## 6 Arferion da a nodwyd

- Roedd yr Heddlu wedi cymryd camau prydlon ar ôl cael gwybodaeth ynghylch anafiadau nad oeddent yn ddamweiniol.
- Gwnaeth Ymddiriedolaeth GIG Surrey a Sussex nodi a thrin heriau iechyd corfforol a meddyliol y claf.
- Mae cofnod o’r cyswllt ffôn rhwng timau bydwreigiaeth Powys a Surrey a Sussex ar ôl i’r pâr symud i Gymru pan oedd y fam yn feichiog ers 32 wythnos, er mwyn sicrhau bod gofal yn cael ei drosglwyddo’n effeithiol.
- Gwnaeth y staff alluogi’r tad i aros i gefnogi’r fam tra bod angen i’r babi aros yn yr ysbyty.
- Rhoddwyd cyngor ynghylch gofalu am y babi yn ddiogel cyn iddo gael ei ryddhau o’r ysbyty ac yn ystod ymweliad geni’r Ymwelydd Iechyd.
- Cynigiwyd cymorth priodol i’r fam pan amlygodd arwyddion o’i hwyliau isel.

## 7 Dysgu a Chamau Gweithredu

Rhoddwyd dau argymhelliad i’r Bwrdd yn deillio o’r hyn a ddysgwyd o’r adolygiad hwn. Y rhain oedd:

1. Dylai’r Bwrdd a’r asiantaethau sy’n aelodau ohono sicrhau bod chwilfrydedd proffesiynol yn cael ei gymhwyso’n gyson ac yn effeithiol gan bob ymarferydd ar draws gwasanaethau oedolion a phlant yn eu harferion wrth weithio gyda theuluoedd.
2. Dylai’r Bwrdd a’r asiantaethau sy’n aelodau ohono sicrhau bod atgyfeiriadau, asesiadau ac ymyriadau diogelu yn cynnwys, yn cyfeirio ac yn adlewyrchu’r darlun teuluol cyflawn, gan gynnwys y tad bob amser.

I weld yr adroddiad llawn, ewch i www.cysur.cymru